



St David's Hall
Neuadd Dewi Sant

CHWEFROR A MAWRTH 2020

SGYRSIAU Â
**STACEY
DOOLEY**

GWENER 21
CHWEFROR
7.30PM



Ar fynd

CHWEFROR

Llun 3	7.30pm	Catrin Finch & Cimarrón
Mawrth 4	11.00am	Cerddorfantur!
Mercher 5 & lau 6	6.00pm	Stodin Ysgolion Dawns ar y cyd â Neuadd Dewi Sant
Gwener 7	7.30pm	Boyzlife - Taith 2020
Sadwrn 8	7.30pm	Beyond the Barricade
Sul 9	3.00pm	Passion of Youth
Mawrth 11	1.00pm	Cyngerdd Awr Ginio Jean-Sélim Abdelmoula
Mercher 12	7.30pm	Beth Hart
lau 13	7.30pm	Cerddorfa Symffoni Gwlad yr Iâ
Gwener 14	7.30pm	Money For Nothing Taith yr Ugeinmlwyddiant
Sadwrn 15	1.00pm	Trío'r Gamelan Lefel 1
	7.30pm	Fascinating Aida
Sul 16	8.30pm	Katya & The Comedy Queens
Llun 17 & Mawrth 18	4.30pm 11.00am & 2.00pm	Zog
lau 20	7.30pm	The Chicago Blues Brothers
Gwener 21	7.30pm	Sgyrsiau â Stacey Dooley
Sadwrn 22	7.30pm	Queen Symphonic Profiad Roc a Cherddorfa
lau 25	1.00pm	Cyngerdd Awr Ginio Simon Desbruslais & Jakob Fichert
	8.00pm	Gwranddo'r Gwreiddiau Breabach Lolfa L3
Gwener 26	7.30pm	Psychic Sally
lau 27	7.30pm	Taith y Byd Gwyl Ffilmiau Mynydd Banff Rhaglen Goch
Gwener 28	Drysau 7.00pm	Lighthouse Family
Sadwrn 29	7.30pm	ELO Again

CARDIFF
CAERDYDD
www.stcardiff.com



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Swyddfa Docynnau
029 2087 8444

Tocynnau ar lein @
www.stdavidshallcardiff.co.uk

Neuadd Dewi Sant, Yr Aes, Caerdydd CF10 1AH

MAWRTH

Sul 1	3.00pm	Cerddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC – Cyngerdd Dygwyl Dewi
Llun 2		Barnardos Cymru Cyngerdd Cefnogwyr Ifainc
Mercher 4	7.30pm	Stewart Lee
Iau 5	7.30pm	Ben Fogle Tales from the Wilderness
Gwener 6	7.30pm	Armonico Consort & Elin Manahan Thomas
Sadwrn 7	7.30pm	Paul Carrack Taith 2020
Sul 8	3.00pm	Dancing to Neverland
Llun 9	7.30pm	Dick & Angel Dare to Do It!
Mawrth 10	7.30pm	Susan Boyle The Ten Tour
Mercher 11	7.30pm	Milton Jones yn Milton Impossible
Iau 12	6.00pm	Sgwrs Map Ffordd Clasur y Gyfres Cyngherddau Rhyngwladol – Y Concerto Lefel 1
Gwener 13	7.30pm	Royal Philharmonic Orchestra
Sadwrn 14	8.00pm	The Circus of Horrors
Sul 15	3.00pm	The Music of Star Wars And Beyond
Mawrth 17	1.00pm	Cyngerdd Awr Ginio Ivan Llić
	8.00pm	Cyngerdd Awr Ginio Chris Wood – Lolfa L3
Mercher 18	7.00pm	Sir Caerdydd a Bro Morgannwg Gŵyl Ysgolion Iau
Iau 19	7.00pm	Sir Caerdydd a Bro Morgannwg Stodin Wanwyn
Gwener 20	7.30pm	Cerddorfa Ffilharmonig Caerdydd Swae Opera!
Sadwrn 21	8.00pm	Ed Byrne



Sul 22	7.30pm	Clannad
Llun 23	8.00pm	The Boys Are Back!
Mawrth 24	7.30pm	Jamie Cullum Taller 2020
Mercher 25	7.30pm	Taith y Byd Gŵyl Ffilmiau Mynydd Banff Rhaglen Las
Iau 26	7.30pm	The Bowie Collective A Journey Into The Mind of The Rock 'n' Roll Alien
Gwener 27	7.30pm	Cerddorfa Symffoni a Chorws Prifysgol Caerdydd
Sul 29	5.00pm	Burn The Floor
Mawrth 31	1.00pm	Cyngerdd Awr Ginio Sinfonia Cymru
	8.00pm	Amy Wadge



Yn Wyrdd Amdani – Ymunwch â'n rhestr e-bost a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am sioeau a chynigion yn syth i'ch blwch derbyn. Yngofrestrwch yn www.stdavidshallcardiff.co.uk

DYDDIADAU GWERTHU

Mae tocynnau i'r digwyddiadau yma ar werth ar y dyddiadau sy'n dilyn onibai bod cofnodion unigol yn dweud Ar Werth Yn Awr:

Cyfeillion Neuadd Dewi Sant – Llun 25 Tachwedd.
Y Cyhoedd – Iau 28 Tachwedd.

Trydar

Rydym wrth ein bodd o weld eich sylwadau Trydar a Gweplyfr a hyfryd o beth ydi bod arnoch eisiau dweud wrth bobol eich bod yn cael y fath hwyl. Ond, er mwyn aelodau eraill o'r gynulleidfa, da chi defnyddiwch ffonau symudol a dyfeisiau'r rhyngwryd yn yr egwyl neu cyn ac ar ôl y cyngerdd. Dylai ffonau symudol a dyfeisiau eraill i gyd gael eu diffodd yn ystod y perfformiad ei hun. Diolch!

MEYSYDD PARCIO CYFAGOS
Mae meysydd parcio canol y ddinas yn agos at yr oedfan ac mae llefydd parcio ar y stryd o gwmpas y ganolfan ddinesig am £4.00* ar ôl 6.00 yr hwyr
*yn gywir ar adeg argraffu



PAWB AT Y SEDD Y BO

Gewch chi bellach ddewis eich sedd eich hun pan fyddwch chi'n codi tocynnau ar lein.



Gweler manylion cynllun hynt ar dudalen 36.



Mae Neuadd Dewi Sant yn eiddo, dan nawdd a dan reolaeth Cyngor Caerdydd.



Yn glocwedd o'r chwith i'r dde: Beth Hart, Lighthouse Family, Queen Symphonic, Ed Byrne, Dick & Angel

Cynnwys

02-03

Dan sylw

Digwyddiadau Actifyddion Artistig a manylion ein Loffa Jin ar Lefel 4.

04-06

Proffil

Fascinating Aïda yn dod yn eu holau i'r Neuadd mewn noson o ddychan a chwerthin llond bol.

Syniadau o ran anrhegion i wneud Sul y Mamau'n ddiwrnod i'w gofio.

07-29

Ar Fynd

Manylion yr holl ddigwyddiadau tan gamp yn y Neuadd ym misoedd Chwefror a Mawrth 2020 a Maes o Law.

30-36

Gwybodaeth am Godi Tocynnau

Sut i godi'ch tocynnau a manylion ein disgowntiau.



Dilynwch ni ar Twitter:
twitter.com/NeuaddDewiSant



Rydym ni ar Facebook:
www.facebook.com/NeuaddDewiSant

Os nad oes arnoch bellach eisiau cael manylion digwyddiadau i ddod yn y New Theatre/Neuadd Dewi Sant, cysylltwch â'n swyddfa docynnau ar 02920 87 84 44 a gofyn am gael eich tynnu oddi ar ein rhestr bost. Mae Cyngor Caerdydd yn gofrestredig gyda'r Swyddfa Comisiynwyr Gwybodaeth, rhif Z5832396.

Y LOLFA JIN

Y LOLFA JIN

Mae ein Lolfa Jin foethus ar Lefel 4 ar agor i bob perfformiad gyda'r hwyr yn yr Awditoriwm.

Champagne, gwin blasus a chwrw crefft, sioe wych o ddiodydd ysgafn heb sôn am dros ddeugain math o jin o bedwar ban byd:

Cwmni Suntory chwedlonol Japan sy'n gwneud, **Roku**, o ddail a blodau Sakura at y gwanwyn, te sencha a the gyokuro at yr haf, pupur sansho at yr hydref a chroen yuzu at y gaeaf.

Gewch chi flasur **Sharish Blue Magic** egsotig o dref ganoloesol Monsaraz ym Mhortiwgal. Mae ei liw glas godidog yn dod o rin blodyn o'r enw pysen las; pan gymysgwch chi'r jin â thonig mae'n troi i liw'n binc hudol. Ymhlith y planhigion ynddo mae'r eithinen bêr, llysiâu'r bara, gwreiddlysiâu'r angel, sinsir, sinamon, cardamom, croen lemon, mefus a mafon.

O'n nes adref mae gennym ddewis amrywiol o jin o Gymru gan gynnwys **Brecon Botanicals**, jin graenus a wneir fesul ychydig yn Nistyllfa Penderyn. Mae iddo flas perlysiâu, yr eithinen bêr ac arni flas y pridd a sbeisys y Dwyrain, awgrym o sinamon a bergamot. Mae Jin Gwymon **Dà Mhile** (a ynganir Da File), jin a wneir fesul ychydig yng Ngheredigion, wedi'i drwytho â gwymon i roi iddo naws y glannau. Ac yn Jin Sych **Cardiff Eccentric** glywch chi flas llysiâuog rhywiog rhosmari, ffenigl, suran a gwylys



RYDYM YN Y LOLFA'N YFED JIN

a nodau sitrws lemonwellt a'r ferfain lemonaid. Fe'i gwneir â'r eithinen bêr naturiol a dyfir ar y comin yn Llantrisant.

Mae gennym jin clasurol hefyd, yn cynnwys Tanqueray, Sipsmith Sloe Gin, Plymouth Gin a'r Bols Genever clasurol, diledryw o hen resipi gwirodydd o'r flwyddyn 1820. Mae'n hŷn na'r un jin o Loegr ac ohono mae'r ymadrodd cyffredin 'Dutch Courage' yn deillio.

Gobeithio y cawn ni'ch gweld chi yn y Lolfa Jin cyn bo hir!

Actifyddion Artistig

CYNLLUN CYFANSODDWRYR IFAINC – LEFEL 1

Ydych chi rhwng pymtheg a deunaw oed? Ymunwch â'n Cynllun Cyfansoddwyr Ifainc i ddatblygu eich sgiliau cyfansoddi, lle byddwch chi'n gweithio gyda chyfansoddwyr ac offerynwyr proffesiynol.

GAMELAN CAERDYDD

Mawrth 6-8pm
Mae repertoire Gamelan

Caerdydd, ensemble gamelan cymuned oedolion Neuadd Dewi Sant, yn cynnwys cyfansoddiadau traddodiadol Java a chyfansoddiadau o'r gorllewin i'r gamelan. Mae croeso i aelodau newydd ymuno â'r cylch gallu cymysg yma, waeth beth fo'u profiad blaenorol.

SESIYNAU BLASU'R GAMELAN I YSGOLION

Mae'r sesiynau'n para dwyawr fel arfer ac maen nhw ar gael drwy gydol y tymor, yn ddelfrydol i gyfnod allweddol 2 ymlaen.



Am ragor o wybodaeth rhwch ganiad i 029 2087 8572 neu e-bostio a2@artsactive.org.uk

TIME CREDITS

Yma yn Neuadd Dewi Sant rydym yn falch iawn o fod yn rhan o'r cynllun Time Credits. Rhedir y cynllun gan Tempo (Spice gynt), elusen a gychwynwyd yng Nghymru yn 2008, ac sydd bellach ar waith ledled gwledydd Prydain. Cymunedau cryfion, cydlyn ydi eu gweledigaeth lle rhoir gwerth ar amser pawb.

Ffordd ydi Time Credits o gydnabod y pethau gwyhch mae pobl yn eu gwneud yn eu cymunedau, ac amser pawb yn gyfwerth, yn gwirfoddoli yn un o'r prosiectau lawer sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys Cymru Golwg ar Fywyd Gwylt, Global Gardens, Recovery Cymru, Clwb Beicio'r Eglwys Newydd, Clybiau Gwaith yn Rhondda Cynon Taf a llawer o brosiectau

ardderchog eraill. Wedyn gellir gwario'r credydau mewn llawer o ganolfannau hamdden, yn cynnwys digwyddiadau dethol yn Neuadd Dewi Sant a'r New Theatre.

Cadwch olwg am y symbol isod i weld ymhle mae'r cynllun Time Credit ar waith* a mynd i timecredits.com i gael rhagor o wybodaeth.



*a bwrw bod tocynnau ar gael, Amodau a thelerau ar waith

“I can't recommend this show highly enough”

★★★★★ Mail on Sunday

“Engages the brain as well as the funny-bone”

★★★★★ Times

Sadwrn 15 Chwefror | Tocynnau £25.00 | Arweiniad oed 14+

FASCINATING AÏDA YN EU HOLAU O'R DIWEDD!

Yn syth ar ôl mis o dymor Dolig yn y Queen Elizabeth Hall yn y Southbank Centre, daw Dillie Keane, Adèle Anderson a Liza Pulman i Gaerdydd ym mis Chwefror ar eu taith yng ngwledydd Prydain.

Mae eu caneuon yn gyfamserol, yn ddwysbigol ac yn ddigri dat ddagrau – a dim atal ar y swae. Er eu clod mae ganddyn nhw dri enwebiad Gwobr Olivier a gwylwyd *Cheap Flights* a'u cân Dolig ddigon i ddychryn y saint bum miliwn ar hugain o weithiau ar YouTube a Gweplyfr – peidiwch, da chi, â cholli'r cyfle yma i'w clywed yn perfformio dewis o hen ffefrynnau, caneuon na chlywsoch mohony'n nhw o'r blaen... ac ambell un rydych yn difaru'i chlywed yn y lle cyntaf.



Hyfforddodd **Liza Pulman** yn y Guildhall School of Music and Drama; cwmpasodd ei gyrfa amrywiol gerddoriaeth, comedi a theatr ac ymunodd â Fascinating Aïda yn 2004. Mae'n hanu o deulu byd adloniant: yr awdur sgrî'n enwog Jack Pulman (*I Claudius*, *War and Peace*) oedd ei thad a'r actores Barbara Young (*Last of The Summer Wine*, *Coronation Street*) oedd ei mam. Ymhlith ei mentrau solo bu ei sioe fawr ei chlodd gan y beirniaid, *Liza Pulman Sings Streisand*.

Astudiodd **Dillie Keane** gerddoriaeth yng Ngholeg y Drindod, Dulyn ac actio yn LAMDA. Roedd hi'n dechrau mynd â hi'n egin actores ond rhoddwyd strôc dan olwyn yr yrfa honno gan lwyddiant Fascinating Aïda, a gychwynwyd ym 1983 gan Dillie, Marilyn Cutts a Lizzie Richardson. Pan ymunodd Adèle ym 1984, cafodd Dillie ei hunion bartner sgrifennu. Mae ganddi hefyd golofn yn *The Stage* ers dros ddeng mlynedd a sgrifennodd yn helaeth i bapurau newydd a'r radio. Enwebwyd ei sioe solo *Single Again* am Wobr Perrier ym 1991.

Mae **Adèle Anderson** yn sgrifennu llawer o ddeunydd y grŵp ar y cyd â Dillie Keane. Perfformiodd y grŵp *cabaret* mawr ei glod yn eang yng ngwledydd Prydain ac Iwerddon, yn ogystal ag ymhellach draw yn Awstralia, yr Unol Daleithiau, Ewrop, Affrica a Singapore. Ymddangosodd droeon lawer ar y teledu, gwneud recordiadau radio, rhyddhau saith CD, dau fideo, hunangofiant a llyfr caneuon.



Sul y Mamau

Sut bynnag rydych chi'n meddwl dathlu Sul y Mamau (22 Mawrth) eleni, gallwch ei wneud yn ddiwrnod arbennig iawn o roi adloniant byw'n anrheg – does dim dau na fydd yn aros yn y cof am byth ac yn codi gwên ar ôl gwên ar wyneb Mam. Mae pob tocyn rhodd yn dod gyda cherdyn cyflwyno arian (cofiwch ofyn am hwn yn y Swyddfa Docynnau pan fyddwch chi'n codi'r tocynnau).

ANRHEGION CYNNAR SUL Y MAMAU

- 15 Chwefror Fascinating Aïda
- 16 Chwefror Katya & The Comedy Queens
- 21 Chwefror Sgyrsiau â Stacey Dooley
- 26 Chwefror Psychic Sally
- 28 Chwefror Lighthouse Family
- 5 Mawrth Ben Fogle – Tales From The Wilderness
- 9 Mawrth Dick & Angel – Dare To Do It
(o *Escape To The Chateau*)
- 10 Mawrth Susan Boyle
- 15 Mawrth The Music of Star Wars and Beyond

AR ÔL SUL Y MAMAU

- 24 Mawrth Jamie Cullum
- 29 Mawrth Burn The Floor gyda Kevin & Joanne Clifton
- 31 Mawrth Amy Wadge
(cyfansoddwr trac sain *Keeping Faith*)
- 8 Ebrill The Sensational 60s Experience
- 11 Ebrill Gatecrasher Classical
- 15 Ebrill Rumours of Fleetwood Mac
- 25 Ebrill Queen Machine Symphonic
gyda Kerry Ellis
- 27 Ebrill Ross Noble
- 30 Ebrill Josh Widdicombe

LLUN 3 7.30pm



MAWRTH 4 11.00am



Catrin Finch & Cimarrón

Cyfle prin i weld cydweithrediad byd-eang gwefreiddiol. Dro'n ôl yn 2007, cyfarfu'r delynores o Gymru Catrin Finch â'r band joropo Columbaidd Cimarrón a'i chychwyn hi ar daith gyffrous drwy Gymru, cydweithrediad a welwyd wedyn yn 2009 a 2010. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, dyma Catrin a Cimarrón yn cyfarfod unwaith eto i deithio gwledydd Prydain.

'They matched furious songs and wild dance routines with subtle instrumental work.'
The Guardian

£20.50

Plant dan 16: £14.00 yr un.
Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £3.00 yn rhatach (gweler tudalen 34).

Ar Werth yn Awr



Cerddorfantur!

Beethoven – Gwron Cerddorol

**Cerddorfa Symffoni Coleg Brenhinol Cymru
Cyflwynir gan Ruth Rosales**

Daw Cerddorfa Symffoni CBCDC yn ei hól ac i'w chanlyn Cerddorfantur newydd sbon danlli grai sy'n rhoi bywyd o'r newydd i Beethoven, yn adrodd ei hanes anhygoel drwy gysylltu ei gerddoriaeth chwedlonol â champweithiau modern o'n hoff ffilmiau. Bydd y cyflwynydd Ruth Rosales yn mynd â chi ar daith ryngweithiol drwy amser i gyfarfod y cyfansoddwr trwm ei glyw oedd yn gallu clywed y dyfodol. Gewch chi ryfeddu at y campweithiau, chwilio'r dyn y tu ôl i'r chwedl a dod aton ni ar ein Cerddorfantur!

Mae'r cyngerdd yma wedi'i fwriadu ar gyfer cynulleidfa ysgolion, ond mae croeso cynnes i aelodau o'r cyhoedd. Dylai'r ysgolion sy'n dod fod ar eu heistedd erbyn hanner awr wedi deg.

£6.00 ymlaen llaw | £7.00 ar y diwrnod

Ysgolion: £3.00 y myfyriwr a'r athro'n mynd am ddim. (rhowch ganiad i'r Swyddfa Docynnau i gadw lle i Ysgolion – mae gofyn talu erbyn 17 Ionawr). Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach. Myfyrywr a Ddysgir Gartref: £3.00 i'r myfyriwr a'r rhiant sy'n gwmni iddo.

Ar Werth yn Awr

MERCHER 5 & IAU 6
6.00pm



GWENER 7 7.30pm



SADWRN 8 7.30pm



SUL 9 3.00pm



MAWRTH 11 1.00pm



Stondin Ysgolion Dawns Rubicon

Ar y cyd â

Neuadd Dewi Sant

Mae symbylu pobl ifanc i gymryd rhan mewn dawnws wrth graidd beth wnawn ni yn Rubicon. Maen nhw wrth eu boddau o weld cynifer o bobl ifanc yn rhoi help llaw i ddathlu eu gorchestion yn eu pedwaredd Wyl Ddawns Ysgolion, eleni ar y cyd â Dewi Neuadd Sant a Chymdeithas Ddawns Ysgolion Caerdydd a'r Fro. Dathlu creadigedd ydi hanfod y diwyddiad yma, dod â phobl ifanc at ei gilydd a rhoi iddyn nhw brofiad i'w gofio. Bydd mwya na thrigain o ysgolion o bob cwr o ranbarth De Cymru'n cymryd rhan yn yr ŵyl.

£8.00

Athrawon sy'n dod yn gwmni: am ddim. Ar Werth 2 Rhagfyr.

Boyzlife – Taith 2020

Am y tro cyntaf erioed, Boyzlife gyda Brian McFadden o Westlife a Keith Duffy o Boyzone, mewn sioe gynhyrchiad band llawn.


Bydd y cynhyrchiad theatr yma sydd wedi'i addasu'n arbennig yn cynnwys llawer o'u hits mwyaf; yn y catalog mae deunaw (yn torri pob record) o senglau Rhif Un, a naw albwm Rhif Un, ac ar y cyd gwerthiannau recordiau dros drigain Miliwn o Unedau.

Gewch chi glywed *World Of Our Own, Mandy, Queen of My Heart, Picture Of You, Words, No Matter What, Uptown Girl, Flying Without Wings, You Raise Me Up, Going Gets Tough, Swear It Again, Father and Son, Love Me For A Reason, My Love* a llond gwlad at hynny.

£32.50

Cwrdd a Chyfarch VIP: £83.00

Ar Werth yn Awr



Beyond the Barricade

Yn 2020, yn dathlu un mlynedd ar hugain bendigedig ar daith, mae'r Cyngerdd Theatr Gerdd sydd ar fynd hwyaf yng ngwledydd Prydain yn cynnwys prif berfformwyr gynt o *Les Misérables* ac yn cyflwyno dros ddwyawr o oreuon Broadway a'r West End, yn dod i ben, wrth reswm pawb, mewn diwedd glo syfrdanol o *Les Mis*. Bydd y sioe newydd sbon danlli grai yma yn 2020 yn cynnwys llawer o'r eitemau gorau a wnaeth BTB y cyngerdd theatr gerdd mwyaf poblogaidd yn y wlad.

£27.00

Grwpiau o 10 neu ragor: pob tocyn £2.00 yn rhatach.

Ar Werth yn Awr



Angerdd Glasoed

Cerddorfa
Genedlaethol Gymreig
y BBC

Beethoven

**Leonore, Agorawd Rhif 3
Bruch Concerto Ffidil Rhif 1
Walton Symffoni Rhif 1**

**Carlos Miguel Prieto –
arweinydd**

Esther Yoo – ffidil

O'i dechrau ar garlam, mae symffoni gyntaf Walton yn heigio gan egni hyd at ei therfyn mewn rhwysg a gogoniant sinematig. Mae i concerto Bruch yr un dawnsio a mynd, ac ynddo un o'r symudiadau araf harddaf yn y repertoire. Beethoven, meistr rhythm a drama, sy'n pennu'r cywair â'i agorawd dalog.

£15.00 – £43.00

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £15.00 yr un. Rhai gostyngiadau ar gael.

Ar Werth yn Awr



Cyngerdd Awr Ginio

Jean-Sélim
Abdelmoula – piano

Yn 2016 cafodd Jean-Sélim wahoddiad gan Syr Andrés Schiff i roi datganiadau solo yn rhan o'i gyfres cyngerddau Building Bridges, i gefnogi doniau newydd. Mae Jean-Sélim yn gyfansoddwr aruthrol o ddawnus y perfformiwyd ei weithiau gan lawer, yn cynnwys Heinz Holliger, Antje Weithaas, Patricia Kopatchinskaja, Orchestre de Chambre de Toulouse, Unawdwyr Siambr y Swistir, Camerata Bern, Zürcher Kammerorchester ac Ensemble Sequence.

£6.00 ymlaen llaw

£7.00 ar y diwrnod

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach (gweler tudalen 34). Ar Werth yn Awr

**1-2 blas ar
gerddoriaeth**



Tudalen 36

MERCHER 12 7.30pm



Beth Hart

A gwesteion arbennig Mae Beth Hart o waed coch cyfan. Mewn diwydiant cerdd sy'n llawn cynhyrchu sglein a lluniau wedi'u haltro'n artiffisial, dyma i chi un artist sy'n rhoi ei chardiau ar y bwrdd, yn rhannu ei chyfrinachau tywyllaf ac yn eich gwahodd i ddod ati ar y daith. Rhyddhaodd y canwr-gyfansoddwr a enwebwyd am Grammy ei halbwm diweddaraf *War In My Mind* ym mis Medi 2019, yn dilyn *Fire On The Floor* mawr ei glod o'r flwyddyn 2016.

14+ (rhaid i blant dan 16 fod yng nghwmni oedolyn).

£43.00 | £48.00
Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 36

IAU 13 7.30pm



Cerddorfa Symffoni Gwlad yr Iâ

Yan Pascal Tortellier – arweinydd
Jean-Efflam Bavouzet – piano

Bizet *L'Arlesienne Cyfres Rhif 2*
Ravel *Concerto Piano i'r Llaw Chwith*
Thorvaldsdóttir *Aeriality*
Prokofiev *Cyfres Romeo and Juliet*

Dyma un o gerddorfeydd rhyngwladol ieuaf Ewrop yn gwneud ei début yng Nghymru mewn rhaglen sy'n rhoi stondin i waith perfformio Bizet a concerto pencampwriaethol Ravel ochr yn ochr â gwaith swyngyfareddol y cyfansoddwr o Wlad yr Iâ, Anna Thorvaldsdóttir. Daw'r pianydd o Ffrancwr mawr ei barch Jean-Efflam Bavouzet at y gerddorfa'n unawdydd ym mhorthread byw o ddychmygus Prokofiev o gariadon anffortunos Shakespeare.

£10.00 – £43.00

Tocyn Platinwm: £51.50

(yn cynnwys sedd yn Rheng 1, gwydraid o Prosecco a rhaglen). Rhai gostyngiadau ar gael.

Ar Werth yn Awr

6.30pm – Lefel 1

Sgwrs Am Ddim Cyn y Cyngordd: Jonathan James yn esbonio ac yn trafod y rhaglen.



GWENER 14 7.30pm



Money for Nothing

Taith yr Ugeinmlwyddiant

Sioe Deyrnged Bennaf Ewrop i Dire Straits

Fe'i ffurfiwyd yn 2000 yn deyrnged i un o bennaf fandiau roc y byd – Dire Straits. Mae'r perfformiad rhagorol yn heigio gan egni a dawn gerddorol – a *Money for Nothing* yn rhy dda i unrhyw benboethyn roc na selogyn Dire Straits ei gollu.

Ar flaen y band mae **Aled Williams**, y canwr gitâr disglair sydd i'w glywed run ffunud â Mark Knopfler. Y tu ôl iddo mae'r rheng yn cynnwys cerddorion profiadol o'r radd flaenaf sy'n gwneud y band yma'n deyrnged deilwng i Dire Straits. Astudiodd Aled a'r band cyfan Dire Straits yn drylwyr er mwyn ail-greu eu teyrnged cyn debyced ag y bo modd at y gwreiddiol. Nid yn unig 'y mae'r bachgen yn gallu chwarae' ond ei lais hefyd ydi'r peth sy'n gwneud Money for Nothing yn ddihafal. Welwch chi hefyd sioe o gitaraau run fath â'r rheini chwaraeai Mark. 2020 ydi eu Hugeinmlwyddiant a'r pen-blwydd mwyaf a'r gorau eto!

Yn cynnwys yr holl hits, o'u sengl gyntaf erioed *Sultans of Swing* hyd at *Brothers in Arms*, *Walk of Life* a'u sengl olaf *The Bug* a ryddhawyd ym 1992– hefyd y gân chwedlonol *Money For Nothing* (gyda Sting), y fideo cyntaf erioed a chwaraewyd ar MTV. Mae'r band hefyd yn cynnwys fersiynau o *On the Night*, *Alchemy* a *Live @ The BBC*.

£27.50

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £2.00 yn rhatach (gweler tudalen 34). Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 36

SADWRN 15 1.00pm



Gweithdy Trio'r Gamelan

Lefel 1

Caiff y teulu i gyd flas ar ein hofferynnau taro efydd hardd o Java a dysgu chwarae darn traddodiadol. Mae'r sesiynau dwyawr yn hwyl ac yn ymarferol o'r dechrau i'r diwedd, yn cynnig rhywbeth newydd pa un a ydych chi'n offerynnwr brwd neu heb flewyn o brofiad cerddorol cynt.

Addas i 7 oed a throsodd.

£8.00

Dan 18, dros 60, myfywyr, pobl ddi-waith, pobl Anabl Gofrestredig, aelodau REACT: £5.50 yr un.

Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 36

SADWRN 15 7.30pm



SUL 16 Cwrdd a Chyfarch –
drysau 6.00pm
dechrau'r sioe 8.30pm



LLUN 17 4.30pm &
MAWRTH 18 11.00am &
2.00pm



© Julia Donaldson/Axel Scheffler

IAU 20 7.30pm



GWENER 21 7.30pm



SADWRN 22 7.30pm



Fascinating Aïda

Maen Nhw yn eu Holau o'r Diwedd!

I'w canlyn bydd dewis o hen ffefrynau, caneuon na chlywsoch mohonyr nhw o'r blaen a rhai rydych yn y lle cynta. Mae'r caneuon yn ddigri dat dagrau ac yn gyfamserol – a does dim atal ar y swae.

Er eu clod mae tri enwebiad Gwobr Olivier a gwyliwyd *Cheap Flights* dros bum miliwn ar hugain o weithiau ar YouTube a Gweplyfr, heb sôn am eu cân Dolig ddigon i ddychryn y saint - sut gallech chi yn eich byw eu colli nhw?

£25.00

Ar Werth yn Awr



Klub Kids yn cyflwyno Katya & The Comedy Queens

Mae'r Klub Kids Comedy Queens yn eu holau yng Nghaerdydd yn eu sioe gomedi gyffrous gwbl newydd. Bydd y sioe'n cynnwys chwech o gwîns comedi digrif a'r byd.

Archseren *RuPauls Drag Race* **KATYA** sy'n llywyddu a datgelir y pum cwîn arall bob pythefnos yn yr wythnosau cyn y sioe.

Gewch chi ddisgwyl sioe drag yn heigio gan egni, yn berfformwyr gyda goreuon y byd, cymeriadau teledu a chomedi ddigri dat dagrau.

Oed 16+

£38.00 | £43.00 | £48.00

Hyn a hyn o docynnau VIP ar gael:
£123.00

Zog

YN FWY, YN LOYWACH AC
YN FWY RHUADWY NAG
ERIOED O'R BLAEN!

Yn fawr ei faint ac yn frwd ei natur, mae Zog yn sâl eisau ennill seren aur yn ysgol Madam Draig, ac mae'n cnocio, yn llosgi ac yn rhuo ar hyd ei ffordd. Wrth lwc, mae'r Dywysoges Perl lew yn ei helpu i ddod at ei goed, yn barod i wynebu ei her fwya hyd hynny...

Gyda chaneuon newydd sbon danlli grai gan Joe Stilgoe, dan gyfarwyddyd Emma Kilbey, mae addasiad llwyfan sbugol o lwyddiannus y ffefryn mawr Zog gan Julia Donaldson ac Axel Scheffler yn gynrychiad hudol i bob oed.

'Superbly fun, colourful and heartwarming'

★★★★ My Theatre Mates

Oedolyn: £15.50 | Plentyn: £13.50

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £13.50 yr un. Grwpiau o 10 neu fwy: £13.50 yr un. Ar Werth yn Awr



The Chicago Blues Brothers

A Night at the Movies

Yn syth bin o West End Llundain, y Chicago Blues Brothers – dewch atyn nhw a'u band un darn ar ddeg i sioe o hits newydd sbon danlli grai, yn ganu i gyd, yn ddawnsio i gyd sy'n dod ag anthemau mwya'r oesoedd y pictiwrwrs atoch chi, yn cael eu perfformio'n fyw mewn cyngerdd.

Bydd yma ganeuon o *Footloose*, *A Star is Born*, *Dirty Dancing*, *The Greatest Showman*, *The Full Monty* a llond gwlad at hynny, heb sôn am holl hoff glasuron y Blues Brothers a hylltod o bethau annisgwyl.

£27.00

Cyfeillion Neuadd Dewi Sant: pob tocyn £1.00 yn rhatach. Grwpiau o 10-19: pob tocyn £1.00 yn rhatach. Grwpiau o 20 neu ragor: pob tocyn £1.50 yn rhatach.

Ar Werth yn Awr



Sgyrsiau â Stacey Dooley


Ddeuddeng mlynedd ar ôl dechrau'i gyrfa, enillodd Stacey Dooley ei phlwy'n un o gyflwynwyr enwoca'r BBC drwy ei chyfresi archwiliol aruthrol o boblogaidd, a gwmpasodd amrywiaeth eang o bynciau ac ennyn diddordeb cenedlaeth newydd o wylwyr iau.

Yn yr ymddangosiad byw prin yma, mae Stacey'n sôn am ei gyrfa hynod hyd yn hyn, i ble mae'n ei chychwyn hi nesaf a sut y mae'r newyddion a newyddiaduraeth archwiliol yn datblygu mewn tymer wleidyddol fyd-eang mor hollt a thirwedd newidiol y cyfryngau.

£20.50 | £25.50

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £20.50 yr un.

Ar Werth yn Awr



Queen Symphonic

Profiad Roc a Cherddorfa

Dewch i brofi hud bythgofiadwy Queen, mewn swae roc a symffonig, yn cynnwys pedwar canwr roc oedd yn serennu yn *We Will Rock You* a band roc pum darn a cherddorfa symffoni.

Mae'r sioe'n cynnwys trefniannau symffoni wedi'u cydasio â band roc tan gamp a pherfformwyr yn anrhydeddu hits mwyaf Queen: *Bohemian Rhapsody*, *We Are the Champions*, *Crazy Little Thing Called Love*, *We Will Rock You* a rhagor.

£38.00 | £44.00 | £49.00

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £38.00 yr un.

Ar Werth yn Awr



MAWRTH 25 1.00pm



Cyngerdd Awr Ginio

Simon Desbruslais –
utgorn


Jakob Fichert – piano

Mae Simon Desbruslais, yr unawdydd utgorn mawr ei glod gan y beirniaid, yr un mor weithgar ym meysydd Baróc a cherddoriaeth gyfoes, ac wedi recordio'n helaeth i Signum Classics.

Perfformiodd Jakob Fichert, pianydd sy'n amlwg ei le drwy'r gwledydd, yn helaeth yng ngwledydd Prydain a thramor a recordio i Toccata Classics, Resonus Classics, Divine Arts a Naxos.

£6.00 ymlaen llaw
£7.00 ar y diwrnod

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach (gweler tudalen 34). Ar Werth yn Awr



MAWRTH 25 8.00pm



Gwrando'r Gwreiddiau

Breabach

Mae 2020 yn flwyddyn arbennig iawn yn oes ffefrynau canu gwerin yr Alban Breabach – eu pymtheng mlwyddiant, cofiwch! Ar hyd y pymtheng mlynedd hynny bu Breabach â'u bryd ar gydnabod a pharchu tarddiadau'r gerddoriaeth maen nhw'n ei chwarae a gwreiddiau'r band ar yr un pryd â chofleidio'r dyfodol â syniadau, egni a chredo newydd. Y cynneddfau allweddol yma, ar y cyd â gwaith caled a dawn, a'u gwelodd yn datblygu'n un o grwpiau gwerin mwyaf cyffrous a llwyddiannus yr Alban. A chanddyn nhw chwe albwm er eu clod, hylltod o wobrau a rhaglen deithio sy'n wastad yn llawn, drwy'r byd yn grwn go iawn, mae golwg mai llwyddiannau eto ar ben y rhain ddaw i'w rhan.

Mae Breabach yn uno doniau Megan Henderson (y Ffidil, Llais), James Lindsay (y Basgrwth, Llais), Calum MacCrimmon (y Bagbibau, y Chwibanog, y Bwsuci, Llais), James Duncan Mackenzie (y Bagbibau, y Ffliwt, y Chwibanog) ac Ewan Robertson (y Gitâr, Llais, y Cajón).

'As polished as it was passionate, matching fiery intensity with exquisite finesse, this was a magnificent set.'

The Scotsman ★★★★★

£16.00

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £2.00 yn rhatach (gweler tudalen 34). Ar Werth yn Awr



MERCHER 26 7.30pm



Psychic Sally

10 Years and
Counting

Yn dilyn ei hymddangosiad gafaelgar ar *Celebrity Big Brother*, a Sally'n fuddugoliaethus yn cyrraedd y pump olaf, mae hoff Seicig y genedl ac un o geffylau blaen y byd Seicig yn ei hôl ar daith yn ei sioe gwbl newydd.

Mae Sally'n syfrdanu cynulleidfaoedd yn hen ac ifanc drwy hyd a lled y wlad ers deng mlynedd a byddwch yn gwingo ar ymyl eich sedd wrth wyllo'i sioe, a hithau'n dod â chyfyngiaeth i'r unfed ganrif ar hugain.

£26.50

Grwpiau o 10 – 19: pob tocyn £1.00 yn rhatach. Grwpiau o 20+ pob tocyn £2.00 yn rhatach.

Sioe ymchwilol ydi hon ac er dibenion difyrru.

Ar Werth yn Awr



IAU 27 7.30pm



Taith y Byd Gŵyl Ffilmiau Mynydd Banff

Rhaglen Goch

Dewch i noson wfreiddiol o antur, yn gasgliad newydd sbon danlli grai o ffilmiau byrion o'r ŵyl ffilmiau mynydd fwyaf bri yn y byd!

Mae Gŵyl Ffilmiau Mynydd Banff yn ymuno â gwneuthurwyr ffilmiau antur a fforwyr gorau'r byd yn ymgnïo nerth deg ewin yng nghyrrion mwyaf anghysbell a syfrdanol y byd. Welch chi gampau nerth braich arwrol, campau sy'n hwb i'r galon a sinematograffi digon i'ch llorio – a'r cwbl ar y sgrîn fawr!

Mae yna ddwy sioe, a dewis cwbl wahanol o ffilmiau y ddwy – ffilmiau'r rhaglen goch (Iau 27 Chwefror) a ffilmiau'r rhaglen las (Mercher 25 Mawrth). Gewch chi'r antur ar ddwywaith o ddod i'r ddwy â disgownt dwy sioe, ar gael drwy'r swyddfa docynnau ar 02920 878444.

Gweler rhagor o fanylion yn www.banff-uk.com

Arweiniad Oed a Argymhellir: 12A (caiff plant ddod yng nghwmni oedolyn).

£15.00

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach (gweler tudalen 34). Tocynnau i'r ddwy sioe: £27.00 (dim ond ar gael o'r Swyddfa Docynnau). Seddi â golygfa gyfyngedig: £11.50 yr un. Grwpiau o 6 neu ragor: pob tocyn £1.00 yn rhatach.

Ar Werth yn Awr



GWENER 28
Drysau 7.00pm



SADWRN 29 7.30pm



SUL 1 3.00pm



LLUN 2 6.30pm



MERCHER 4 7.30pm



Lighthouse Family

Bellach mae Lighthouse Family, un o fandiau mwyaf llwyddiannus y naw degau a degawd cynta'r ganrif yma, wedi rhyddhau eu halbwm stiwdio cyntaf ers deunaw mlynedd. Mae *Blue Sky in Your Head*, a ryddhawyd ym mis Mai 2019, yn cynnwys holl glasuron y band wedi'u hailfeistrolu, yn eu plith *Lifted*, *Ocean Drive* a *High*, i ddatlu chwarter canmlwyddiant eu hanes recordio a gwerthiannau recordiau dros ddeng miliwn.

Negeseuon gobaith a chalondid. Teimladau cymuned a chymuned. Caneuon cariad a chysylltiad. Alawon i'w canu, nerth esgryn eich pen, o eigion calon. Lighthouse Family heb os nac onibai, yn eu holau i freuddwydio'r hud o'r newydd.

£28.00 | £38.00 | £50.50
VIP: £118.00

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £28.00 yr un. Ar Werth yn Awr

ELO Again

Dyma ELO AGAIN yn eu holau ar eu taith syfrdanol Re-Discovery sy'n dathlu cerddoriaeth wirioneddol gyffredinol ei hapêl Jeff Lynne a'r Electric Light Orchestra.

Bellach ar eu hwythfed flwyddyn mae ELO AGAIN yn rhoi i chi flas dramatig go iawn o sut beth fuasai un o gyngherddau chwedlonol ELO pan oedden nhw ar eu hanterth, a'r holl brofiad wedi'i ail-greu'n broffesiynol ag atgynhyrchu sain, sioe oleuadau ac effeithiau gweledol gwych. Maen nhw'n perfformio'r hits mawr i gyd – *Mr Blue Sky*, *Livin' Thing*, *Sweet Talkin' Woman*, *Shine A Little Love*, *Confusion*, *Last Train To London*, *Roll Over Beethoven*, *Wild West Hero*, *Don't Bring Me Down* a llond gwlad at hynny.


ELO AGAIN ydi pennaf sioe deyrnged gwledydd Prydain, yn rhoi i chi effaith fyw drawiadol trefniannau cerddorfaol enwog ELO, eu tannau a'u lleisiau'n esgyn. Does dim dwywaith chwaith nad oes ganddyn nhw ddawn difyr, y naill hit ar ôl y llall. Mae eu gwedd ar *Mr Blue Sky* yn ddigon i fynd â'ch gwynt chi, yn llawn angerdd a thanbeidrwydd. Dewch i ail-fyw oes Roc Glam ac ELO AGAIN yn talu teyrnged i ganeuon hardd o gywrain Jeff Lynne. Byddwch yn morio yn arddull roc symffonig ddihafal ELO a glywch chi rai o ganeuon roc a pop clasurol mwyaf bythgofiadwy ein cenhedlaeth.

Rhaid i blant dan 14 fod yn nghwmni oedolyn.

£27.00

Grwpiau o 10 neu ragor: pob tocyn £2.00 yn rhatach.

Ar Werth yn Awr



Cyngerdd Dygwyl Dewi

Cerddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC Grant Llewellyn – arweinydd Calan

Daw'r grŵp gwerin o Gymru, Calan, at Gerddorfa'r BBC yng Nghymru i ddatlu Dygwyl Dewi â première ym Mhrydain Cân Cnawd y Pridd – cyfres o bum cyfansoddiad a ysbrydolwyd gan flodeugerddi caneuon ac alawon traddodiadol Cymru yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Cyflwynir y gyfres er cof am Meredydd Evans – un o gasglwyr caneuon pwysica'r ugeinfed ganrif ac un o gewri diwylliant Cymru. Comisiwn ar y cyd ydi'r darn, rhwng Cerddorfa'r BBC yng Nghymru ac Orchestre Symphonique de Bretagne.

£15.00 – £43.00

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £15.00 yr un. Rhai gostyngiadau ar gael.

Ar Werth yn Awr



Barnardo's Cymru

Cyngerdd Cefnogwyr Ifainc

Daw plant o ysgolion drwy hyd a lled Cymru at ei gilydd yn gôr yn llu i ganu rhai o'u hoff ganeuon yng Nghyngerdd Cefnogwyr Ifainc Barnardo's Cymru. Bydd y noson yn cynnwys y corau'n canu caneuon o ffilmiau a sioeau llwyfan poblogaidd ynghyd â chlasuron o Gymru.

Bydd yr arian a godir o'r cyngerdd yn mynd tuag at helpu Barnardo's Cymru i roi cefnogaeth i blant, pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau agored i niwed o Fôn i Fynwy.

£14.00 | £17.00

Dan 12: £8.00 | £10.00



Stewart Lee

Snowflake/Tornado

Rhaglen ddwbl o ddwy set newydd, awr yr un, gefnfefn gan 'the world's greatest living stand-up' (Times)

Mae **Tornado** yn amau safle Stew yn y farchnadfa gomedï ar ôl i Netflix restru'i sioe ar gam yn 'reports of sharks falling from the skies are on the rise again. Nobody on the Eastern Seaboard is safe.'

Mae **Snowflake** yn amau gwerth Stew mewn cymdeithas sy'n chwalu'r gwerthoedd rhyddfrydig y bu'n awyddus i'w harddel mewn tirwedd hud a lledrith rhyfeddod y gaef.

£27.00

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £2.00 yn rhatach (gweler tudalen 34).

Ar Werth yn Awr



IAU 5 7.30pm



Ben Fogle

Tales from the Wilderness

Hanesion gwefreiddiol gan un o fforwyr yr oes sydd ohoni. Dewch at Ben i'r sioe galonogol a chyffrous yma, pan fydd yn rhannu ei straeon y gwylltir. Mae Ben wedi dringo Everest, wedi nofio gyda chrocodelod, achub eliffantod, osgoi môr-ladron, cael ei adael am flwyddyn ar ynys anghyfannedd, cerdded i Begwn y De, croesi'r Ardal Wag gyda chamelod, rhwyfo ar draws Môr yr Iwerydd, dilyn trywydd ymfudo wildebeest, nofio o Alcatraz, dioddef gan glefyd cnawdysol a phoitsio gyda ffuredau!

£29.50

Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 36

GWENER 6 7.30pm



Armonico Consort

Christopher Monks *arweinydd*
Elin Manahan Thomas
soprano

Bach Offeren yn B Leddf

Fe ellid dadlau y buasai 'Hits Mwyaf Bach' yn well enw ar Offeren yn B Leddf JS Bach gan mai dyna roedd Bach ei hun yn gobeithio'i gyflawni yn y campwaith yma. Cyfansoddodd yr Offeren dros chwarter canrif olaf ei oes a'i chwblhau flwyddyn gwta cyn ei farw ac mae'n frith o gerddoriaeth a chyfeiriadau roedd Bach yn eu hystyried ei waith gorau. Os na chlywsoch chi mohoni erioed yn fyw, dyma un cyngerdd nad gwiw i chi'i gollu heb flewyn ar dafod.

£25.00 | Myfyrwyr: £5.00 yr un
Rhai gostyngiadau ar gael.

Ar Werth yn Awr

6.30pm Lefel 1

Sgwrs Am Ddim Cyn y Cyngerdd:
Jonathan James yn esbonio ac yn trafod y rhaglen.

hynt Tudalen 3

hynt Tudalen 36

SADWRN 7 7.30pm



Paul Carrack

Taith 2020

Dyma Paul Carrack a'i fand chwe darn aruthrol yn ei chychwyn hi ar daith unwaith eto ar eu Taith 20/20 deg oed ar hugain. Mewn rhaglen ddogfen ar y BBC am ei yrfa hanner can mlynedd syfrdanol cafodd Paul y glasnew *The Man with the Golden Voice* – rhoes ei lais fodd i fyw i filiynau mewn caneuon megis *How Long* gan ACE, *Tempted* gan Squeeze a *Living Years* gan Mike and the Mechanics a enwebwyd am Wobr Grammy ac mae bellach wedi ennill ei blwy'n gadarn yn un o'r cerddorion annibynnol mwyaf diwyd ar y sîn. Rhyddhawyd yr albwm newydd *The Best of LIVE 1995-2020* ym mis Hydref 2019.

£37.50 | £42.50

Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 36

SUL 8 3.00pm



Dancing to Neverland

Mae Wendy, John a Michael, bellach mewn gwth o oedran, yn mynd â chi ar eu taith gerddorol i rodio llwybrau atgof, yn cofio'u hanturiaethau cyffrous gyda Peter. Dawnsio drwy awyr y nos i Wlad Byth Bythoedd. Bale talog, bechgyn coll yn canu, crocodeilod yn dawnsio ar ben stryd, a'r eliffantod mwyaf selog welwch chi fyth! Mae JPJ School of Dance yn mynd â chi ar daith hudol i Wlad Byth Bythoedd.

£17.00

Plant 7 oed ac iau: £10.00 yr un.

hynt Tudalen 36

LLUN 9 7.30pm



Dick & Angel

Dare to Do It!

Dyma Dick ac Angel Strawbridge, sêr yr hit ar Sianel 4 *Escape to the Chateau*, yn ei chychwyn hi ar eu taith gyntaf erioed.

Yn ystod y noson ddfyr ofnadwy yma, mae'r ddau'n egluro pwy ydyn nhw, o ble daethon nhw, sut cyfarfuon nhw a pham meiddion nhw ei wneud!

Dros y blynyddoedd diweddaraf cyfareddwyd miliynau o wylwyr drwy'r byd yn grwn gan eu hanturiaethau, ond mae gan y Lefftenant-Cyrnol, y Peiriannydd a'r chef, Dick, a'i wraig Angel sy'n entrepreneur ac yn ddylunydd, lawer i hanes eto heb ei draethu.

£25.00 | £27.00 | £29.50

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £25.00 yr un.

Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 36

MAWRTH 10 7.30pm



Susan Boyle

The Ten Tour

Mae'r canwr rhyfeddol Susan Boyle yn ei hôl ac i'w chanlyn ei sioe newydd drawiadol, *The Ten Tour* sy'n dathlu degawd anhygoel yn y diwydiant cerdd.

Bydd y sioe'n cynnwys ei hits mwyaf a genres cerddoriaeth syfrdanol newydd, a does dim dau na fydd Susan Boyle yn eich gadael yn gegrwith, yn union fel y gwnaeth ddeng mlynedd yn ôl pan gamodd ar lwyfan *Britain's Got Talent*.

£35.50 | £48.00 | £58.00

Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 36

MERCHER 11 7.30pm



Milton Jones

yn Milton Impossible

Un dyn. Un Genhadaeth. Ydi'n bosib? Na, digon o waith.

Mae Milton yn datgelu'r gwir ynghylch bod yn ysbŵr rhyngwladol, cyn cael hunaniaeth newydd siomedig a'i gorfododd i ymddangos ar *Mock the Week* a *Live at the Apollo*.

Fodd bynnag, stori garu â thro yn ei chynffon ydi hon hefyd, neu hyd yn oed un â sigiad pur ddifrifol. Lol botas maip odidog o wirion ynteu oes yna ystyr dyfnach? Mae i bob dyn ei bris. Sainsbury's, lle mae bwyd da'n costio llai.

Yn 2011, enillodd sioe radio Milton wobwr arian Sony, yn ogystal ag ennill Headliner of the Year Chortle am ei act ar ddeudroed. Enwebwyd ei sioe radio hefyd am Wobwr Urdd yr Awduron yn 2012, ac mae newydd orffen ei ddegfed gyfres ar Radio 4.

'He's fast, absurd and very Funny'
Radio Times

'No-one can touch Jones when he hits his stride'
The Guardian

£30.00
Ar Werth yn Awr



IAU 12 6.00pm



Sgwrs Map Ffordd Clasurrol y Gyfres Cyngherddau Rhyngwladol Y Concerto

Lefel 1

Cyflwynir gan y Dr Jonathan James ac ato daw Christiana Mavron ar y ffidil.

Yn amlach na heb y concerto ydi'r darn mwyaf syfrdanol ar y rhaglen, ac unawdwyr yn dangos eu cyraeddiadau. Gwelwn sut tyfodd y concerto o'i ddechreuadau yn yr ail ganrif ar bymtheg drwodd i oes aur yn y cyfnod Rhamantaidd, a chael blas ar ddarnau stondin mwy modern hefyd, gydag esboniadau sain ac arddangosiadau ar y piano.

Digwyddiad â thocynnau am ddim
Ceisiwch eich tocynnau yn y Swyddfa Docynnau.

GWENER 13 7.30pm



Royal Philharmonic Orchestra

Thierry Fischer – arweinydd
Tasmin Little – ffidil

Borodin Agorawd, Prince Igor Dvořák Concerto Ffidil Brahms Symffoni Rhif 1

Drama liwgar, swyn heintus a nerth cawr gewch chi yn y rhaglen foethus o Ramantaidd yma. Dyma berfformiad olaf Tasmin Little yn y Neuadd cyn iddi ymddeol felly cofiwch, da chi, ddod i'w gweld yn perfformio'n syfrdanol Concerto Ffidil Dvořák a'i gyfoeth melodaidd, a glywch ochr yn ochr ag Agorawd *Prince Igor* Borodin a Symffoni Gyntaf Brahms.

£10.00 – £43.00
Tocyn Platinwm: £51.50
(yn cynnwys sedd yn Rheng 1, gwydraid o Prosecco a rhaglen).
Rhaid gostyngiadau ar gael
Ar Werth yn Awr

6.30pm Lefel 1
Sgwrs Am Ddim Cyn y Cyngerdd: y Dr Keith Chapin yn esbonio ac yn trafod y rhaglen.



SADWRN 14 8.00pm



The Circus of Horrors

Bellach mae'r cast aruthrol a sgubodd i feinals *Britain's Got Talent* yn Hit yn y West End a thrwy'r byd yn grwn. Bydd yn mynd â chi ar reid colli cylla roc a rôl, actau rhyfeddol a rhyfedd. Dyma ddathlu'r chwarter canmlwyddiant a byddwch yn gwingo ar ymyl eich sedd pan na fyddwch yn syrthio oddi arni yn g'lana chwerthin.

£18.00 | £21.00 | £23.00
£27.00

Cynnig Stlum y Bore Bach: pob tocyn £3.00 yn rhatach o'i godi erbyn 14 Ionawr.
Myfyrwyr, Pobl dros eu 60 a cheiswyr gwaith: pob tocyn £3.00 yn rhatach yn y ddau fand prisiau uchaf.

Ar Werth yn Awr



SUL 15 3.00pm



The Music of Star Wars And Beyond

London Concert Orchestra

Anthony Inglis – arweinydd

Ers talwm byd mewn galaeth ymhell, bell i ffwrdd... sgoriodd John Williams gerddoriaeth un o sagâu ffilm mwya'r oesoedd!

O *Imperial March* hyd at *Dual of the Fates*, o *Alien* hyd at *Predator* dewch i brofi'n fyw lawn rym y London Concert Orchestra yn perfformio detholiad disglair o gerddoriaeth o saga *Star Wars* a'r tu hwnt: *The Force Awakens*, *A New Hope*, *Return of the Jedi*, *The Phantom Menace*, *The Empire Strikes Back*, *Attack of the Clones*.

Ac at hynny taith i alaeth cerddoriaeth y tu hwnt i saga *Star Wars: Back to the Future*, *Close Encounters of the Third Kind*, *Star Trek*, *Alien*, *Predator*, *Gravity* a llawer at hynny...

£17.50 | £20.00 | £30.00 | £38.50 | £44.50 | £49.50

Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £17.50 yr un. Grwpiau o 10 neu ragor: 20% yn rhatach.

Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 36

MAWRTH 17 1.00pm



Cyngerdd Awr Ginio

Ivan Ilić

Pianydd anturus ydi Ivan Ilić sy'n hoffi i'w gerddoriaeth fod 'on the brainy side' chwedl *The New Yorker*. Mae ei repertoire yn ymestyn o bencampwriaeth *Études* Chopin gan Godowsky hyd at dawelwch haniaethol Morton Feldman. Yn sgil ei ymroddiad i ddeall cyfansoddwyr yn eu holl gymhlethdod – wedyn cyfleu'r ddirnadaeth honno i gynulleidfa eang – mae'n bresenoldeb dihafal ar y dirwedd gerddorol.

**£6.00 ymlaen llaw
£7.00 ar y diwrnod**

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach (gweler tudalen 34).

Ar Werth yn Awr

1-2 blas ar gerddoriaeth **hynt**
Tudalen 36

1-2 Tudalen 3

MAWRTH 17 8.00pm



Gwrando'r Gwreiddiau

Chris Wood

Mae Chris Wood yn gyfansoddwr digyfaddawd y mae ei gerddoriaeth yn datgelu ei gariad tuag at hanes answyddogol y bobloedd Saesneg eu hiaith. Â deall tyner, mae'n cyd-weu'r traddodiad â'i ddamhegion cyfoes ei hun.

Yng Ngŵyl Werin Caergrawnt yn yr haf y llynedd cafwyd cip ymlaen llaw ar ei albwm newydd syfrdanol *So Much to Defend* (a ryddhawyd yn swyddogol ar 27ain Ionawr 2017) sy'n cynnwys myfyrdodau ynghylch pêl-droed y gynghrair leiaf, syndrom y nyth wag, dysgu nofio, Cook-in Sauce ac, nid leiaf, y Geco yn drosiad y gymdeithas sydd ohoni.

**£16.00 ymlaen llaw
£17.00 ar y diwrnod**

Dan 16: £5.00 yr un. Aelodau REACT: £10.00 yr un. Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £2.00 yn rhatach (gweler tudalen 34).

Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 36



MERCHER 18 7.00pm



Sir Caerdydd a Bro Morgannwg

Gŵyl Ysgolion Iau

Gwledd gerddorol gan gerddorion ieuaf Gwasanaeth Cerdd Sir Caerdydd a Bro Morgannwg – Cerddorfa, côr, bandiau a'u Ensemble y Delyn arbennig iawn, mewn rhaglen amrywiol o bleserau cerddorol. Dyma'r perfformiad cyntaf i lawer o'r disgyblion, yn cychwyn ar eu taith gerddorol.

£9.00 | £10.50 | £13.00

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach (gweler tudalen 34).

hynt Tudalen 36

IAU 19 7.00pm



Sir Caerdydd a Bro Morgannwg Stodin Wanwyn

Dewch i ddathlu'r gwanwyn yng nghwmni ensembles canolradd bywiog Gwasanaeth Cerdd Sir Caerdydd a Bro Morgannwg, a chôr yn llu o ddisgyblion ysgol gynradd. Cyfle ydi'r Stodin Wanwyn i fwrw'r gaeaf dros go' a chael blas ar seiniau newydd.

£9.00 | £10.50 | £13.00

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach (gweler tudalen 34).

hynt Tudalen 36

GWENER 20 7.30pm



Cerddorfa Ffilharmonig Caerdydd

Michael Bell MBE – arweinydd

Swae Opera!

Os ydych am fentro i fyd opera, heb eistedd drwy gynhyrchiad ar ei hyd, dyma'r union gyngerdd i chi. Gewch chi bigion o rai o'r operâu mwyaf a sgrifennwyd erioed, y munudau sy'n tynnu'r lle i lawr mewn operâu megis *Carmen*, *Aida*, *Turandot*, *La bohème* a rhagor.

£8.00 – £25.00

Tocynnau mantais safonol: gostyniadau £2.00 yn y ddau fand prisiau drutaf (gweler tudalen 34). Dan 18: £6.50 yr un (ar wahân i'r stalau neu Reng 1), pobl ifanc 19-25: £10.00 yr un (ar wahân i'r stalau neu Reng 1). Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £8.00 yr un. Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 36

SADWRN 21 8.00pm



Ed Byrne

If I'm Honest

Dewch at Ed yn craffu arno'i hun yn bur lym ac yn gwneud ei orau i benderfynu oes ganddo'r UN gynneddf werth ei throsglwyddo i'w blant.

Mae Ed Byrne yn cyflwyno'i ddsbarth meistr comedi sylwi newydd sbon danlli grai yn syth ar ôl ei Daith lwyddiannus yn 17/18, *Spoiler Alert!*

Bellach yn wyneb cyfarwydd iawn ar y teledu, yn y flwyddyn aeth heibio ymddangosodd Ed ar *Live At The Apollo* (Llywydd BBC), *Mock The Week* (BBC), *The Pilgrimage* (BBC), *Top Gear* (BBC) a *QI* (BBC).

Oed 16+

£27.50

Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 36

SUL 22 7.30pm



Clannad

In A Lifetime – Y Daith Canu'n Iach
A Gwesteion Arbennig

Mae Clannad yn dathlu gyrfa hanner can mlynedd arobryn, eithriadol â thaith canu'n iach drwy'r byd a rhyddhau set bocsi aml-fformat.

Wedi gwerthu pymtheng miliwn o recordiau drwy'r byd yn grwn a chanddyn nhw wyth albwm yn Neg Uchaf gwledydd Prydain er eu clod, bydd Taith Canu'n Iach y criw aml eu gwobr yn dathlu eu gyrfa hanner can mlynedd eithriadol. Hwn fydd gair ola'r band yn yr arena fyw.

£33.00 | £48.00 | £63.00

Uchafrif 6 thocyn yr un. Seddi am ddim ar gael i ofalwyr.

Ar Werth yn Awr

LLUN 23 8.00pm



The Boys Are Back!

Gyda Five, A1, Damage a 911

Mae'r hogiau yn eu holau! Daw **Five**, **A1**, **Damage** a **911** â sioe atoch sy'n berwi o hits, yn glasuron pop pob un. Pedair act, un noson fythgofiadwy!

Rhaid i blant dan 14 fod yng nghwmni oedolyn.

£25.00 | £29.00 | £35.00

Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 36

MAWRTH 24 7.30pm



Jamie Cullum

Taller 2020

Ar ôl rhyddhau ei albwm diweddaraf *Taller*, mae'r cerddor a'r cyfansoddwr caneuon mawr ei glod gan y beirniaid **Jamie Cullum** yn dod i'r llwyfan ar daith yn 2020.

Mae perfformiadau byw dynamig Jamie yn dal sylw'r gynulleidfa erioed drwy ei egni digamsyniol, ei ddawn ddi-ben-draw a'i bresenoldeb llwyfan.

Rhaid i blant dan 14 fod yng nghwmni oedolyn.

£38.00 | £45.50 | £52.50
VIP (y seddi gorau sydd ar gael): £102.00

Uchafrif 4 thocyn y cwsmer. Ar Werth yn Awr

hynt Tudalen 36

MERCHER 25 7.30pm



Taith y Byd Gŵyl Ffilmiau Mynydd Banff

Rhaglen Las

Dewch i noson wfreiddiol o antur, yn gasgliad newydd sbon danlli grai o ffilmiau byrion o'r ŵyl ffilmiau mynydd fwyaf bri yn y byd!

Mae Gŵyl Ffilmiau Mynydd Banff yn ymuno â gwneuthurwyr ffilmiau antur a fforwyr gorau'r byd yn ymeginio nerth deg ewin yng nghyrrion mwyaf anghysbell a syfrdanol y byd. Welwch chi gampau nerth braich arwrol, campau sy'n hwb i'r galon a sinematograffi digon i'ch llorio – a'r cwbl ar y sgrîn fawr!

Mae yna ddwy sioe, a dewis cwbl wahanol o ffilmiau y ddwy – ffilmiau'r rhaglen goch (Iau 27 Chwefror) a ffilmiau'r rhaglen las (Mercher 25 Mawrth). Gewch chi'r antur ar ddwywaith o ddod i'r ddwy â disgownt dwy sioe, ar gael drwy'r swyddfa docynnau ar 02920 878444.


Gweler rhagor o fanylion yn www.banff-uk.com

Arweiniad Oed a Argymhellir: 12A (caiff plant ddod yng nghwmni oedolyn).

£15.00

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach (gweler tudalen 34). Tocynnau i'r ddwy sioe: £27.00 (dim ond ar gael o'r Swyddfa Docynnau). Seddi â golygfa gyfyngedig: £11.50 yr un. Grwpiau o 6 neu ragor: pob tocyn £1.00 yn rhatach.

Ar Werth yn Awr



IAU 26 7.30pm



The Bowie Collective

A Journey Into The Mind of The Rock 'n' Roll Alien


Dewch ar daith ddwyawr anhygoel drwy waith gorau David Bowie. Mae'r grŵp yma o gerddorion roc, artistiaid a pherfformwyr yn ail-greu recordiadau mwyaf eiconig Bowie yn gywain fanwl o flaen cefnlen gyfareddol o oleuadau a hud i'r llygad.

Rhaid i blant dan 14 fod yng nghwmni oedolyn.

£28.00

Grwpiau o 10 neu ragor: pob tocyn £1.00 yn rhatach.

Ar Werth yn Awr



GWENER 27 7.30pm



Cerddorfa Symffoni a Chorws Prifysgol Caerdydd

Beethoven *Fantasia Gorawl*
Beethoven *Symffoni Rhif 9*

Roedd ffrindiau Beethoven yn daer am iddo roi rhwydd hynt i berfformio'r Nawfed Symffoni'n gyhoeddus: 'Paid â gwarafun ymhellach i'r bobl fwynhau, paid â chadw ymhellach gan y gorthrymedig yr ymdeimlad o'r hyn sy'n fawr ac yn berffaith, perfformiad y hyn sy'n fawr ac yn berffaith, perfformiad y campwaith diweddaraf o'th law!'

£9.00

Dau Docyn am £12.00

Tocynnau mantais safonol) a phobl ifanc 16-18 oed: pob tocyn £3.00 yn rhatach (gweler tudalen 34).

SUL 29 5.00pm



Burn The Floor

Kevin Clifton, Joanne Clifton

Anything You Can Do...

Dyma Kevin Clifton yn ei ôl gyda chast *Burn The Floor* yn 2020...a'r tro yma daw ei chwaer Joanne Clifton yn gwmni i Kevin.

Ar ôl llwyddiant taith gyntaf erioed *Burn The Floor* yng ngwledydd Prydain yn 2019, mae'r cynhyrchiad pum seren yn barod i ddod yn ei ôl mewn sioe newydd.


Bydd y brawd a'r chwaer enwog ar daith gyda'i gilydd am y tro cyntaf erioed ac yn gwneud yn fawr o'u llwyddiannau unigol ar thema a ysbrydolwyd gan 'Anything You Can Do...'. A pha ffordd well o wneud hynny nag yn sioe Dawnsio Neuadd flaenllaw'r byd *Burn The Floor!*

Yn yr ugain mlynedd aeth heibio mae *Burn the Floor* wedi chwyldroi arddull Dawnsio Neuadd. Gan gyfuno coreograffi digon i fynd â'ch gwynt chi a symudiadau sy'n torri tir newydd, mae *Burn the Floor* yn dod â'u hegni enwog, heintus a gwrthryfelgar i'r llwyfan bob un noson yng ngwledydd Prydain, yn serenennu pencampwyr *Strictly Come Dancing*, Kevin Clifton a Joanne Clifton.

Oed 7+ | Rhaid i blant dan 14 fod yng nghwmni oedolyn.

£38.00 | £46.00 | £55.00 | VIP: £88.00

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £2.00 yn rhatach (gweler tudalen 34). Defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith: seddi'r stalau £38.00 yr un. Ar Werth yn Awr



MAWRTH 31 1.00pm



MAWRTH 31 8.00pm



Cyngerdd Awr Ginio

Sinfonia Cymru

Daw tri chanwr tannau proffesiynol ifanc o Sinfonia Cymru, dan arweiniad Caroline Pether, at ei gilydd mewn cyngerdd ysbrydoledig o *Hwyrigan Dohnányi* a berfformiwyd gyntaf yn Fienna ym 1904, wedyn Trio Tannau Beethoven yn C leddf – a ystyrid unwaith ei gyfansoddiad gorau.

Mae'r cyngerdd yma'n rhan o Beethoven 250, dathliad deucan mlwyddiant a hanner Beethoven ledled Caerdydd.

£6.00 ymlaen llaw
£7.00 ar y diwrnod

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £1.00 yn rhatach (gweler tudalen 34).

Ar Werth yn Awr

1-2 blas ar gerddoriaeth



Tudalen 36



Tudalen 3

Amy Wadge

Mae Amy yn perfformio ac yn rhyddhau cerddoriaeth ers gadael Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru dros ugain mlynedd yn ôl. A chanddi eisoes wobwr Grammy er ei chlod am gyd-sgrifennu hit byd-eang Ed Sheeran *Thinking Out Loud*, sgrifennodd Amy hefyd chwe chân i ddrama sgubol o lwyddiannus BBC Wales, *Keeping Faith*, gan gynnwys yr arwyddgan atgofus *Faith's Song* a enillodd wobwr BAFTA Cymru y llynedd.

Roedd Amy yn ei hystyried yn ffrainc pan ofynnwyd iddi ac anfonwyd y sriptiau ati a ddefnyddiodd wedyn i gyfansoddi'r gerddoriaeth fyddai'n ddrych o daith y prif gymeriad drwy gydol y gyfres. Mae'r caneuon ill chwech i'w clywed ar draws y penodau, yn isgerddoriaeth deimladol oedd yn ddolen gyswllt rymus rhwng cymeriadau'r sioe a'r gwylwyr fel ei gilydd.


£15.00

Dan 15: £5.00 yr un

Aelodau REACT: £10.00 yr un

Tocynnau mantais safonol: pob tocyn £2.00 yn rhatach (gweler tudalen 34). Grwpiau o 10 neu ragor: pob tocyn £1.00 yn rhatach.

Ar Werth yn Awr



Tudalen 36

EBRILL

Mercher 1	7.30pm	Puccini – <i>Madama Butterfly</i> *
Gwener 3	7.30pm	Philharmonia Orchestra*
Sadwrn 4	8.00pm	Foil, Arms and Hog: <i>Swines</i> *
Mercher 8	7.30pm	The Sensational 60s Experience*
Gwener 10	2.00pm	Cerddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC*
Sadwrn 11	Drysau 7.00pm	Gatecrasher Classical, Caerdydd*
Mawrth 14	1.00 pm 8.00pm	Cyngerdd Awr Ginio – Pedwarawd Mavron* hwyrgerdd* Tabea Debus & Phedwarawd Laefer – Lolfa L3
Mercher 15	7.30pm	Rumours of Fleetwood Mac*
Iau 16	6.00pm	Taith y Byd Kidz Bop*
Sul 19	7.00pm	The Lost Words: Spell Songs*
Mercher 22	7.30pm	Queen Machine Symphonic* Gyda Kerry Ellis
Sadwrn 25	Drysau 7.00pm	Brendan Schaub*
Sul 26	3.00pm	Cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru*
Llun 27	8.00pm	Ross Noble*
Mawrth 28	8.00pm	CCJO gyda'r unawdydd gwadd arbennig* Enrico Tomasso – Lolfa L3
Iau 30	8.00pm	Josh Widdicombe*

MAI

Gwener 1	7.30pm	The Hollies*
Sadwrn 2	7.30pm	Luther*
Sul 3	7.30pm	Remembering The Oscars*
Mawrth 5	Drysau 7.00pm	Nick Mason's Saucerful of Secrets*
Mercher 6	7.30pm	Seven Drunken Nights – Stori'r Dubliners*
Iau 7	7.30pm	Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC*
Sadwrn 9	7.30pm	Owen Money's Juke Box Heroes III*
Sul 10	3.00pm	The Music of Judy*
Mawrth 12	8.00pm	hwyrgerdd* – Sean Shibe – Lolfa L3
Iau 14	7.30pm	Chris Ramsey*
Llun 18	7.30pm	Aurora Orchestra*
Gwener 22	8.00pm	Gwrandor Gwreiddiau* Jamie Smith's MABON
Sadwrn 23	7.30pm	Sounds of the 60s YN FYW gyda Tony Blackburn*
Sul 31	8.00pm	Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC* Cyngerdd Teulu

MEHEFIN		
Llun 1 – Mercher 3	7.30pm	Riverdance* Sioe Newydd y Chwarter Canmlwyddiant
Sadwrn 6	7.30pm	Royal Liverpool Philharmonia Orchestra*
Gwener 12	7.30pm	Cerddorfa Ffilharmonig Caerdydd* Clasuron y Gadeirlan
Sadwrn 13	7.30pm	Karl Jenkins mewn Cyngerdd*
Iau 18	7.30pm	Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC*
GORFFENAF		
Gwener 10	8.00pm	Côr a Cerddorfa Tabernacl * (gwahoddiad yn unig)
Llun 20	8.00pm	Gwrando'r Gwreiddiau* Lady Maisery – Lofa L3
MEDI		
Gwener 4	8.00pm	The Dreamboys – Taith 2020 *
Sadwrn 19	7.30pm	What's Love Got To Do With It*
HYDREF		
Sadwrn 3	8.00pm	Jimmy Carr*
Sul 18	3.00pm	Russell Watson*
Llun 19	Drysau 7.00pm	David Essex*
Mawrth 20	8.00pm	Jason Donovan*
Iau 22	7.30pm	The Hairy Bikers*
Llun 26	Drysau 7.00pm	Level 42*
TACHWEDD		
Iau 19	Drysau 7.00pm	Gabrielle*
Iau 26	8.00pm	Jimmy Carr*
Llun 30	Drysau 7.00pm	Status Quo*

* Ar Werth yn Awr

30 | Swyddfa Docynnau 029 2087 8444



GABRIELLE
19.11.20 | Drysau 7.00pm
£30.00 & £38.50 | VIP: £102.00



JIMMY CARR
3.10.20 & 26.11.20
8.00PM
£32.00

* Ar Werth yn Awr

Tocynnau ar lein @ www.stdavidshallcardiff.co.uk | 31

22.10.20 £22.50 – £42.50
VIP £102.00



THE HAIRY BIKERS
AROUND THE WORLD AND BACK AGAIN

northern ballet CELEBRATING 50 years



GEISHA
A ballet by Kenneth Tindall
with music by Alexandra Harwood

12 - 16 May • Mai newtheatrecardiff.co.uk
029 2087 8889



WELSH PROMS CYMRU

Gŵyl Gerddoriaeth Glasurol Genedlaethol Cymru • Wales' National Classical Music Festival

Gorffennaf 18-25

2020

YN DATHLU 35 MLYNEDD O PROMS CYMRU

Owain Arwel Hughes CBE yn cyflwyno:

- Cerddorfa Philharmonig Frenhinol
- Cerddorfa Genedlaethol Cymru y BBC
- Cerddorfa Opera Cenedlaethol Cymru
- Band y Cory a Chôr Meibion Unedig
- Cerddorfa Jazz y Brifddinas
- John Lill CBE...a llawer mwy...



www.welshproms.com

Swyddfa Docynnau: 029 2087 8444
Codi tocynnau ar lein –
www.stdavidshallcardiff.co.uk
Gweinyddiaeth: 029 2087 8500

Bellach gallwch ddewis eich sedd eich hun pan fyddwch yn codi tocynnau ar lein.

I rai digwyddiadau, am fod cynifer o gwsmeriaid yn y Swyddfa Docynnau, efallai y bydd gofyn i ni atal gwerthiannau digwyddiadau diweddarach hanner awr cyn dechrau perfformiad.

Mae codi tocynnau yn hawdd

Mae'r Swyddfa Docynnau ar agor o ddydd Llun tan ddydd Sadwrn o hanner awr wedi naw tan hanner awr ar ôl dechrau'r perfformiad (neu bump o'r gloch pan does dim perfformiad) a dyddiau Sul a Gwyliau Banc awr cyn y perfformiad i bobl sy'n dod yn bersonol yn unig.

Teleffon ar 029 2087 8444. Talwch yn y fan â chardiau debyd neu gredyd (efallai y bydd ffi am bobl tocyn i rai sioeau). Rydym yn derbyn cardiau Mastercard, Visa a Delta. Fodd bynnag, nid ydym yn derbyn cardiau Solo nac Electron. Cofiwch gasglu tocynnau wedi eu talu ymlaen llaw hanner awr cyn cychwyn y perfformiad.

Mae'r llinellau teleffon yn cau hanner awr cyn amser cau'r Swyddfa Docynnau.

POST sgrifennwch atom ni yn Neuadd Dewi Sant, Yr Aes, Caerdydd, CF10 1AH gyda manylion llawn eich gofynion gan gynnwys eich dewis fan eistedd ac unrhyw ddisgowntiau sy'n berthnasol. Cynhwyswch eich enw, eich cyfeiriad, eich cod post a rhif teleffon yn ystod y dydd ac amgáu siec yn daladwy i Gyngor Caerdydd neu fanylion eich cerdyn (gan gynnwys y dyddiad terfyn a rhif dosbarthu Switch), ac amlen â chyfeiriad a stamp ar gyfer anfon eich tocynnau. Mae yna dâl o £1.00 am anfon tocynnau drwy'r post.

Yn Wyrdd Amdani – Ymunwch â'n rhestr e-bost a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am sioeau a chynigion yn syth i'ch blwch derbyn. Ymgofrestrwch yn www.stdavidshallcardiff.co.uk

Amdiffyn Data

Pan fyddwch chi'n codi tocynnau i Neuadd Dewi Sant cadwir eich gwybodaeth bersonol ar system gyfrifiadurol y Swyddfa Docynnau. Drwy godi tocynnau rydych chi'n caniatáu cadw'ch gwybodaeth bersonol yn unol â'r Deddfau Amdiffyn Data. Gofynnir i chi a geir defnyddio'r wybodaeth yma:

- i roi gwybod i chi am ddigwyddiadau neu ddatblygiadau i ddod yn New Theatre neu Neuadd Dewi Sant;

- i'w rhoi i gyrrff eraill yn y celfyddydau yn ne Cymru – a allai gynnwys Theatr Sherman, Canolfan Mileniwm Cymru, CBCCD, National Theatre Wales, Canolfan Celfyddydau Chapter, Opera Cenedlaethol Cymru, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC, Sinfonia Cymru a Ballet Cymru – at ddiben tebyg;
- i'w rhoi i gyrrff heb fod yn y celfyddydau, wedi'u dethol yn ofalus, at ddiben rhagor o wybodaeth a allai fod o ddi-ddordeb i chi.

Gofynnir i chi ddweud pa ddewisiadau sy'n dderbyniol gennych. Bydd hyn yn rhoi lle i ni brosesu eich gwybodaeth bersonol yn unol â'ch dymuniadau.

Gellir rhannu gwybodaeth codi tocynnau cwsmeriaid (ac eithrio manylion cardiau credyd) ag asiantaethau allanol at ddiben dadansoddi. Bydd Neuadd Dewi Sant yn gwneud popeth rhesymol i sicrhau diogelwch data oddi mewn i'r broses yma.

Mae prosesau Neuadd Dewi Sant yn cydymffurfio â Deddf Amdiffyn Data 1998.

Rheolir, cynhyrchir a gweithir ein gwefannau a'n Hysbysebion Swyddogol gan Neuadd Dewi Sant o'n swyddfeydd yn y Deyrnas Unedig. Nid yw Neuadd Dewi Sant yn dweud ar gyfrif yn y byd fod y deunydd a'r wybodaeth ar ein gwefan neu y gellir eu cyrchu drwyddi nac yn addas nac ar gael i'w defnyddio mewn Gwledydd eraill y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Tocynnau Mantais Safonol

Mae'r tocynnau mantais sy'n dilyn yn berthnasol i sioeau sy'n dangos gostyngiadau yn y panel prisiau: Cyfeillion Neuadd Dewi Sant, Plant dan 16, Myfyrwyr, *Pobl dros eu 60, Pobl anabl (ynghyd ag un cydymaith), Hawlwyr, Dalwyr cardiau MAX ac Aelodau Corfforaethol. Dim ond un disgownt y ceir ei ddefnyddio ar bob tocyn ac mae gofyn prawf o safle. Cofiwch ddweud pa ddisgownt rydych yn ei hawlio pan fyddwch chi'n codi tocyn.

* Efallai na fydd y disgownt yma'n berthnasol i rai perfformiadau.

Caiff defnyddwyr cadeiriau olwyn (ynghyd ag un cydymaith) brynu seddi'r stalau am bris y tocyn rhataf i sioeau sy'n dangos y gostyngiad yma. Does dim dal y bydd llyfdd cadeiriau olwyn ar gael a dylid eu cadw drwy'r Swyddfa Docynnau, nid ar lein, er mwyn ymorol am anghenion penodol cwsmeriaid.

Tocynnau Myfyrwyr

Mae tocynnau £5.00 hefyd ar gael i gyngherddau yng Nghyffres Cyngherddau Rhyngwladol Neuadd Dewi Sant hyd at hanner awr wedi chwech ar ddiwrnod y perfformiad.

Rhaid casglu tocynnau ac fe'u rhoddir pan ddangosir cerdyn adnabod myfyrwr dilys.

Grwpiau

Rydym yn croesawu partion o unrhyw faint ac yn cynnig disgowntiau dethol i grwpiau o ddeg neu fwy. Rhowch ganiad i'r Llinell Boeth Grwpiau unswydd ar 029 2087 8443

Tocynnau Teulu

Mae Tocynnau Teulu ar gael i rai digwyddiadau lle dangosir hynny. Mae hyn yn berthnasol i Deulu o bedwar sy'n cynnwys uchafrif o ddau oedolyn a dau o blant dan 16.

Plant

Mae gostyngiadau a phrisiau arbennig yn berthnasol i lawer o ddigwyddiadau. Am resymau lechyd a Diogelwch, bydd gofyn tocyn ar bob plentyn oed cerdded.

Cyfeillion Neuadd Dewi Sant

Gewch chi ostyngiadau dethol, copi o'r llyfryn gyda llythyr newyddion bob yn ddeufis a blaenoriaeth yn codi tocynnau i'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau am ddim ond £18 y flwyddyn. Rhowch ganiad i'r Swyddfa Docynnau ar

029 2087 8444 i gael rhagor o fanylion.

Ad-Daliadau a Chyfnwidiadau

Mae Neuadd Dewi Sant yn rhoi mawr werth ar ymroddiad ei chwsmeriaid yn codi tocynnau'n fuan ac mae'n cydnabod bod pethau annisgwyl weithiau'n nadu i bobl ddod.

Gellir cyfnwidiadau tocynnau i unrhyw ddigwyddiad am yr un pris neu'n uwch (o dalu'r gwahaniaeth). Nid yw'r dewis cyfnwidiad ar gael i gyngherddau sydd wedi gwerthu pob tocyn. Os bydd y digwyddiad yn rhan o dymor penodol (ee Proms, Bale etc), cynnigir tocynnau i'w cyfnwidiad yn rhan o'r un tymor. Rhaid i docynnau ddod i law yn y Swyddfa Docynnau dim diweddarach na phedwar awr a deugain cyn y perfformiad gwreiddiol. Mae tâl o £2.00 am y gwasanaeth yma. (Gwaetha'r modd, ni ellir na chyfnwidiad nac ailwerthu yn Neuadd Dewi Sant docynnau a godwyd drwy Ganolfan Gofal Cwsmeriaid y BBC.)

Fel arall derbynir tocynnau i'w hailwerthu ar yr amod mai tocynnau Neuadd Dewi Sant a werthir yn gyntaf ac nad oes modd sicrhau ailwerthu. Ni allwn ailwerthu tocynnau oni bai bod y tocynnau gwreiddiol yn cael eu dychwelyd i'r Swyddfa Docynnau. Cedwir 20% gwerth unrhyw ailwerthu.

Ar wahân i'r ddau wasanaeth yma neu ganslo perfformiad, nid ad-dalir arian unwaith y bydd tocynnau wedi'u codi.

Os canslir perfformiad rhaid dychwelyd tocynnau i'r man prynu (e.e. Os codwyd nhw drwy un o'n hasiantaethau tocynnau cydnabyddedig, dylid eu dychwelyd yn uniongyrchol atyn nhw).

Hwyrddyfodiad

I osgoi amharu, dim ond pan fydd saib addas yn y perfformiad y gellir gwadael i hwyrddyfodiad ddod i mewn i'r awditorïwm. Gellir gwyllo'r cyngerdd drwy deledu cylch cyfyng yn Lolfa L3.

Amodau gwerthu

Cadwn yr hawl i wneud newidiadau yn y cast neu'r rhaglenn os oes gofyn.

Gellir gwrthod mynediad dan rhai amgylchiadau heb o anghenraid wneud ad-daliad. Cofiwch fwrw golwg ar eich tocynnau pan godwch nhw i ymorol eu bod yn gywir. Fel y gwel yn dda Rheolwr y Swyddfa Docynnau y mae ad-daliadau.

Cofiwch ymorol bod eich ffôn symudol wedi'i ddiffodd yn ystod y perfformiad. Ni chaniateir na thynnu lluniau na recordio unrhyw berfformiad.

Tâl Gwasanaeth Tocynnau

Mae tâl Gwasanaeth Tocynnau ar rai pryniannau tocynnau, sef £3.95 y pryniant felly, i'r digwyddiadau yma, dim ond £3.95 dalwch chi, waeth faint o docynnau godwch chi ar y pryd. Mae'r Tâl Gwasanaeth Tocynnau yn ymorol am gost cynhyrchu eich tocynnau, prosesu eich archeb ac anfon eich tocynnau atoch chi. Mae'n amcan gennym roi gwasanaeth tan gamp i gwsmeriaid pa un a ydyn nhw'n ymweld â ni'n bersonol, yn galw ar y ffôn ynte'u'n rhyngweithio â ni ar lein. Bydd y tâl bychan yma am bob gwerthiant yn rhoi lle i ni ddal i wneud hyn er gwaethaf galw mwyfwy ar adnoddau gwerthfawr.

*Bydd rhai digwyddiadau heb y Tâl Gwasanaeth Tocynnau – er enghraifft digwyddiadau a drefnir gan A2 Actifyddion Artistig ac unrhyw ddigwyddiad a chanddo'n bris drutaf £13.00 neu lai.

Yfed Cyfrifol

A ninnau'n oedfan adloniant trwyddedig rydym yn hybu yfed cyfrifol. Os bydd unrhyw gwsmeriaid yn dangos arwyddion o feddwod, ymosoddedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, oherwydd diod neu rywbeth arall, cânt eu hebrwng o'r adeilad ac ni chynnigir dim ad-daliadau tocynnau.

Gwybodaeth am godi tocynnau

SUT I DDOD ATOM

Rydym yng nghalon Caerdydd nesaf at Ganolfan Siopa Dewi Sant ar Yr Aes.



A wnech chi ymorol bod eich ffôn symudol wedi'i ddiffodd yn ystod y perfformiad. Ni chaniateir tynnu lluniau na recordio unrhyw berfformiad.

GWASANAETHAU I GWSMERIAID



Os oes gennych chi ofynion eistedd arbennig a wnech chi roi gwybod i'r Swyddfa Docynnau.



Mae cyfleusterau i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn yn cynnwys lloriau gwastad, cyfleusterau tai bach (yn y Bwyty ac ar Lefelau 2,3,4 a 5) a chownteri lefel isel yn y Swyddfa Docynnau, yr Ystafell Gotiau a Bar Lefel 3. Gall defnyddwyr cadeiriau olwyn ynghyd ag un cydymaith godi tocynnau i seddi cefn y stalau am bris y tolyn rhataf sydd ar gael ar gyfer y perfformiad. Efallai y bydd cwsmeriaid ag anawsterau cerdded yn cael mai seddi'r stalau ydi'r mwyafrif hygyrch.



Mae system is-goch ar gael yn yr awditiwrwm (ac eithrio Rheng 5) a gellir ei defnyddio heb neu gyda chymorth clywed. A wnech chi roi gwybod i staff y Swyddfa Docynnau pan fyddwch chi'n codi tocynnau a rhoddir cyfarwyddiadau defnyddio cyflawn pan gyrhaeddwch chi ar gyfer y digwyddiad.

Am wybodaeth ynghylch sut y gall cwsmeriaid â nam ar eu symudedd fynd i Neuadd Dewi Sant mewn cerbyd pan fyddan nhw'n mynd i berfformiad neu ddigwyddiadau penodol sydd heb fod yn berfformiadau, ewch i dudalennau Eich Ymweliad a Mynediad y wefan www.stdavidshallcardiff.co.uk neu roi caniad i'r Swyddfa Docynnau ar **029 2087 8444**. Cofiwch, er mwyn cydymffurfio â chytundeb rhwng Cyngor Caerdydd a Heddlu De Cymru, mai hyn a hyn o

drwyddedau gollwng i gerbydau preifat a rannir ar gyfer pob perfformiad yn ôl y drefn y cyntaf i'r felin gaiff law.



Mae gwybodaeth am ddigwyddiadau ar gael mewn fformatau Braille a phrint bras o'r ddesg ar lawr gwaelod y Neuadd, Llyfrgell Ganolog Caerdydd a Chymdeithas Deillion Caerdydd. I gael eich copi eich hun rhwch ganiad i'r Adran Farchnata ar **029 2087 8542**.



Mae croeso i gŵn tywys. A wnech chi roi gwybod i'r Swyddfa Docynnau pan fyddwch chi'n codi tocynnau.



Cynllun cenedlaethol newydd ydi **Hynt** sy'n gweithio gyda theatrau a chanolfannau celfyddydau drwy hyd a lled Cymru i ymorol bod pethau'n glir ac yn gyson o ran polisi tocynnau teg a mynediad. Mae gan ddeiliaid cardiaid **Hynt** hawl i docyn yn rhad ac am ddim i gynorthwywr personol neu ofalwr yn Neuadd Dewi Sant a'r holl theatrau a chanolfannau celfyddydau sy'n rhan o'r cynllun. Ewch i www.hynt.co.uk i gael gwybodaeth am y cynllun ac i ymuno.